# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 85(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Ymadael â'r UE - TYNNWYD YN OL

(0 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn caniatáu cynnal dadl ar yr eitem nesaf o fusnes

**NNDM6373 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM6374 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017.

## 4 Dadl: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(60 munud)

**NNDM6374**

Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU.

2. Yn credu:

a) ei fod yn gwbl annerbyniol ar ei ffurf bresennol; a

b) bod rhaid cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu buddiannau Cymru a sefyllfa gyfansoddiadol a phwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyhoeddi bil parhad.

'Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu nad yw Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn unrhyw fygythiad i'r setliad datganoli presennol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Paul Davies (Preseli Sir Benfro)]

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod seneddau a chynulliadau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhan o setliad democrataidd modern y Deyrnas Unedig, ac y dylid eu cynnwys yn llawn yng ngwneuthuriad y Deyrnas Unedig sy'n ffynnu yn y dyfodol ar ôl-Brexit.

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Caffael Gwasanaethau Rheilffyrdd a'r Metro

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio Llywodraeth Leol

(45 munud)

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Banc Datblygu Cymru

(45 munud)

## 8 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(60 munud)

**NDM6367** Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

Gosodwyd Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 13 Mawrth 2017.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 7 Gorffennaf 2017.

**Dogfennau ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Dadl: Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(5 munud)

**NDM6368** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18

(30 munud)

**NDM6353** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 27 Mehefin 2017.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfen ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 14 Gorffennaf 2017

## 11 Dadl: Cyfnod 4 Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

(15 munud)

**NDM6372** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

'Bil yr Undebau Llafur (Cymru)'

**Dogfennau Ategol**
Bil yr Undebau Llafur (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 19 Gorffennaf 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2017 i'w hateb ar 18 Gorffennaf 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** Pryd fydd yr adroddiad ar yr ymchwiliad i werthu tir i South Wales Land Developments Cyf yn cael ei gyhoeddi? OAQ(5)0735(FM)

**2. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad monitro diweddar Estyn ar Goleg Cymunedol y Dderwen? OAQ(5)0733(FM)

**3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn sir Benfro? OAQ(5)0729(FM)

**4. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ardaloedd menter? OAQ(5)0732(FM)

**5. Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dysgu cynhwysol sy'n seiliedig ar waith? OAQ(5)0736(FM)**R**

**6. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd lleisiau cleifion wrth ddarparu a datblygu gwasanaethau iechyd? OAQ(5)0743(FM)**W**

**7. Nathan Gill (Gogledd Cymru):** Beth yw asesiad y Prif Weinidog o'r sefyllfa ddigartrefedd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0741(FM)

**8. Lee Waters (Llanelli):** Pa gamau y bydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i wrthgydbwyso rhaglen canoli swyddi Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Adran Gwaith a Phensiynau? OAQ(5)0742(FM)

**9. Nick Ramsay (Mynwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau iechyd ym Mynwy? OAQ(5)0730(FM)

**10.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd ym Mhort Talbot ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod? OAQ(5)0739(FM)
**TYNNYWD YN OL**

**11.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ganolfannau canser arbenigol yng Nghymru? OAQ(5)0737(FM)

**12.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal ynghylch y posibilrwydd o reolaeth basbort rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon? OAQ(5)0731(FM)

**13.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelu cofebau rhyfel Nghymru? OAQ(5)0734(FM)**W**

**14.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn Nwyrain Casnewydd? OAQ(4)2286(FM) OAQ(5)0744(FM)

**15.** **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd coetiroedd cymunedol yng ardaloedd trefol Cymru? OAQ(5)0740(FM)